

Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2026 Ieithoedd Lleiafrifol

NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2026
19.05.2026

URDD

IEITHOEDD LLEIAFRIFOL

Mae heddwch yn siarad pob iaith

*'Pam trafferthu',
'Waeth ti heb',
'Beth yw'r ots.'*

Pam trafferthu?
Gan mai hon yw iaith pen draw'r cof,
iaith fy Mabinogi, iaith sy'n rhan ohonom ni,
iaith sy'n rhoi ystyr i bob darn o dir,
iaith sy'n orffennol, presennol a dyfodol.

Waeth mi heb?
Ond dyma iaith cymuned, iaith perthyn, iaith balchder,
iaith crio chwerthin, iaith rantio,
iaith synnwyr a malu awyr,
iaith 'ti ddim ar ben dy hun'.

Beth yw'r ots?
Mae ots am iaith
sy'n lliwio ymennydd a llenwi enaid,
sy'n dychmygu'n ehangach, yn garedicach,
sy'n dymchwel waliau, sy'n fyd o bosibiliadau.

Oes, mae ots am iaith
sy'n lond gwlad o obaith.

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd yn canolbwyntio ar Ieithoedd Lleiafrifol. Pwrpas y Neges yw addysgu pobl ar draws y byd am yr ieithoedd hyn, ac annog iddynt eugwerthfawrogi, eu dysgu a'u defnyddio. Mae'r Neges yn agor trafodaeth ehangach am rôl iaith mewn empathi, cydraddoldeb a dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.

Gyda dros 7,000 o ieithoedd ledled y byd, ac arbenigwyr yn rhagweld y bydd hanner ohonynt wedi diflannu erbyn diwedd y ganrif, mae'r Neges yn datgan yn glir yr angen i ni ddiogelu ieithoedd lleiafrifol cyn iddynt ddiflannu am byth.

Cafodd cynnwys a thrywydd neges eleni eu penderfynu gan fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria, Ysgol Morgan Llwyd ac Aelodau'r Urdd. Cynhaliwyd gweithdy ym Mhrifysgol Wrecsam ddiwedd Ionawr, ac yn dilyn y gweithdy aeth y bardd Marged Tudur ati i greu geiriau'r Neges, gyda Sioned Evans (Smei) yn creu animeiddiad o'r geiriau.



Nos Sul, 17 Mai, am 7.30 o'r gloch, bydd *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn rhoi sylw i'r neges fel rhan o'r rhaglen o Gapel Hyfrydle yng Nghaerdybi, dan arweiniad Catrin Angharad Jones, ynghyd â pherfformiad arbennig gan Aelwyd yr Ynys. Bydd Lowri Morgan yn teithio i Fôn wrth i'r cyffro gynyddu ar gyfer gŵyl ieuencid fwyaf Ewrop, Eisteddfod yr Urdd, yng nghwmni cadeirydd pwyllgor gwaith yr ŵyl, Dr Manon Wyn Williams.



O'r byd a'r betws




Colofn Denzil I John



Drannoeth yr Etholiad

Bydd etholiadau'r Senedd eleni yn ddigwyddiad cofiadwy am nifer o resymau amrywiol, nid y lleiaf mai dyma'r tro cyntaf i Gymru ddefnyddio system bleidleisio wahanol, sef Rhestrau Cyfrannol Caeedig. Nod y broses oedd sicrhau gwell cynrychiolaeth i'r amrywiol safbwyntiau gwleidyddol o fewn y Senedd. Ond prin fod hynny wedi digwydd gan fod dwy blaid (Plaid Cymru a Reform) wedi ennill rhyngddynt ddwy ran o dair o'r seddi. Golyga hyn y bydd pedair plaid yn cael eu cynrychioli gan y traean arall (Llafur, y Ceidwadwyr, y Gwyrddion a'r Democratiaid Rhyddfrydol). Bydd gofyn i'r blaid fwyaf ei haelodaeth yn y Senedd gydweithio â phleidiau eraill i sicrhau'r gyllideb a'r rhaglen waith sydd i'w chynnig.



Elfen newydd arall fydd sicrhau bod yr aelodau i gyd yn dod i adnabod taleithiau daearyddol eang, yn arbennig yn y gogledd a'r gorllewin. Bydd natur y berthynas rhwng aelodau'r Senedd newydd a'r rhai maen nhw'n eu cynrychioli yn anoddach nag yr oedd hi pan fyddai'r Aelod yn fwy cyfarwydd â natur a phoblogaeth eu hetholaethau. Byddai'n braf pe byddai pob Cymanfa/ Henaduriaeth yn sefydlu swyddog cyswllt â'r seneddwyr newydd. Gallent eu gwahodd i gyfarfod â'r cyrff cydenwadol lleol er mwyn i bawb werthfawrogi natur pob pwnc fydd yn codi ac yn effeithio ar eu cymunedau.

Un o'r nodweddion a amlygwyd yn ystod yr ymgyrchu oedd i rai pleidiau greu'r syniad fod modd datrys pob anhawster, ac mai mater o gyllido cyfrifol fyddai sicrhau hynny. Mae creu disgwyliadau afreal nad oes modd eu gwireddu yn wleidyddiaeth wael, a dylai pob teulu sylweddoli nad oes modd fforddio pob disgwyliad na dyhead. Er tegwch ag aelodau Plaid Cymru, dywedwyd ar y dechrau y byddai angen blaenoriaethu eu gweithgareddau gan dargedu'r heriau amlycaf, megis rhestrau aros ym myd iechyd a lles lwfansau ar gyfer plant. Ni all unrhyw lywodraeth greu gwynfyd, ond rhaid i bob llywodraeth fod yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn deg wrth flaenoriaethu.

Un o'r elfennau mwyaf trist wrth sgwrsio â phobl yn ystod yr ymgyrchu oedd gweld arwyddion o atgasedd a difrawder mewn sawl ardal, y myfiaeth hunanol heb ewyllys i feddwl am sefyllfaoedd y tlawd a'r di-lais yn eu cymdeithas eu

hunain. Efen arall o hyn oedd clywed pobl yn dweud bod gwleidyddiaeth yn amherthnasol i'w hamgylchiadau ac nad oeddent yn parhau'r ymgeiswyr na'r pleidiau. Mynegwyd ar sawl llwyfan fod y pleidiau a'r ymgeiswyr yn gelwyddog, yn hunanol ac yn anabl i amgyffred amodau byw a blaenoriaethau'r etholwyr yn gyffredinol. Prin oedd y sgysiau'n ceisio cymdeithas iach, neu'n ceisio cyfiawnder a thegwch yn ein cymunedau, ac roedd rhai pynciau'n cael eu codi nad oes gan Senedd Cymru unrhyw gyfrifoldeb drostynt, megis delio â mewnfudwyr.

Beth felly am y dyfodol? Gobeithio bydd y Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol yn manteisio ar y blynyddoedd nesaf i ystyried sut fydd pobl sy'n coleddu eu daliadau penodol hwy'n creu polisïau perthnasol a phwrpasol er lles ein cenedl a'n byd, nid yn gymaint er lles eu pleidiau, ond er lles cymdogaethau Cymru. Bydd lleisiau'r Gwyrddion a'r Democratiaid Rhyddfrydol i'w clywed o lawr y Senedd, a gobeithio y bydd y ddwy blaid fwyaf niferus yn barod i wrando, a bod yn gadarnhaol a gwrthrychol, ac nid yn fympwyol a negyddol. Mae'r etholwyr angen gweld effeithiau'r polisïau er lles teuluoedd a chymunedau, ac mae angen i'r gwleidyddion gynnal deialog gyson gyda'u hetholwyr, fel eu bod yn teimlo'u bod yn un â'r broses o lywodraethu.

Dymunwn yn dda i'r seneddwyr i gyd i hyrwyddo lles ein cenedl. Boed iddynt gynnig gwerthoedd gwaraidd gan fod yn gynhwysol mewn trafodaeth, yn hytrach na darlithio mewn ffordd hunan-bwysig. Boed i Rhun ap Iorwerth a'i gabinet ddarganfod ffordd i addysgu ein cenedl beth yw hanfod y drafodaeth, beth bynnag fo'r pwnc dan sylw. Diolch hefyd i'r ymgeiswyr a ymddiswyddodd neu na chafodd eu hethol, a boed iddynt dderbyn ein gwerthfawrogiad am bob ymdrech onest i hyrwyddo gobaith a gwasanaeth yn ein mysg. Gall pob un ohonom gyfrannu i feithrin gwleidyddiaeth iach a chymdogaethau sy'n arfer parch a gobaith i bawb. Gweddiwn yn gyson dros ein gwleidyddion, a boed i ni – etholwyr o bob argyhoeddiad crefyddol a gwleidyddol – gyd-dynnu fel Cymru unedig, gan weithredu er lles ein gilydd.



Dod â dynion ledled Cymru at Iesu

gan Jon Stockley, Cyfarwyddwr Cenedlaethol CVM Cymru

Gweledigaeth glir a grymus CVM (Christian Vision for Men) Cymru yw cyflwyno pob dyn i Iesu a cherdded ochr yn ochr â nhw wrth iddynt ddarganfod beth mae'n ei olygu i'w ddilyn Ef. Ledled Cymru, mae'r genhadaeth hon yn cael ei gweithredu gyda brwdfrydedd, dyfalbarhad ac ymdeimlad dwfn o alwad. Yn greiddiol, nid yw'r gwaith yn ymwneud â rhaglenni neu ddigwyddiadau yn unig, ond â phobl – dynion y mae eu bywydau'n cael eu trawsnewid drwy gyfarfod Iesu Grist, a chenedl yn troi ei hwyneb yn ôl at yr Arglwydd, un bywyd ar y tro.

Mae calon gwaith CVM Cymru yn syml ond yn ddwys: sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â dynion wrth iddynt lywio'u bywydau, eu ffydd, a'r heriau sy'n dod gyda'r ddau beth hyn. Nid yw bod yn ddisgybl yn cael ei gyflwyno fel delfryd bell, ond fel taith a rennir. Mae cerdded y llwybr cul ochr yn ochr â'n gilydd yn golygu ymrwymiad, atebolrwydd, ac anogaeth. Mae'r rhain yn werthoedd sy'n mynd yn fwyfwy prin yn y byd heddiw ond sydd eu hangen yn fawr. Yn y munudau bob dydd hyn – mewn sgysiau, cyfeillgarwch, a phrofiadau a rennir – y mae gwir drawsnewid yn dechrau digwydd.

Mae gweddi gynyddol yng nghanol y gwaith hwn: wrth i un dyn ar y tro ddod i roi ei fywyd i Iesu, y bydd teuluoedd cyfan hefyd yn dechrau ei adnabod Ef. Mae'r weledigaeth hon yn cydnabod y dylanwad pwerus sydd gan ddynion o fewn eu cartrefi a'u cymunedau. Pan fydd dyn yn cyfarfod ag Iesu mewn ffordd sy'n wirioneddol newid ei fywyd, mae'r effaith yn aml yn ymestyn ymhell y tu hwnt iddo ef. Mae'n cyrraedd ei briod, ei blant, a hyd yn oed gymunedau ehangach, gan greu effaith donnog (*ripple*) a all siapiro cenedlaethau. Y gobaith yw y bydd Cymru, drwy'r gwaith hwn, yn gweld newid, lle bydd calonnau'n cael eu meddalau, bywydau'n cael eu hadfer, a chenedl yn dechrau troi ei hwyneb yn wir yn ôl at Iesu.



I gefnogi'r weledigaeth hon, mae CVM Cymru yn arfogi dynion Cristnogol ac eglwysi lleol â chynllun efengylu pedair lefel syml ond effeithiol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i gynllunio i fod yn ymarferol ac yn hygyrch, gan helpu dynion i feithrin perthynas ddilys gyda'r rhai a allai fod ymhell o'r eglwys. Yn hytrach na dibynnu ar strategaethau cymhleth, mae'r dull yn canolbwyntio ar gyfleoedd bob dydd – sgysiau dros goffi, gweithgareddau ar y cyd, a gwir gyfeillgarwch fel sail ar gyfer rhannu'r Efengyl.

Mae pob lefel o'r cynllun yn annog dynion i symud yn fwiadol yn nes at y rhai y maent yn eu cyrraedd, gan ddechrau gyda meithrin ymddiriedaeth a symud ymlaen tuag at sgysiau ysbrydol ystyrion. Mae'r dull cam wrth gam hwn yn helpu i ddileu'r ofn a'r ansicrwydd sy'n aml yn gysylltiedig ag efengylu. Mae'n grymuso dynion i gamu allan mewn ffydd, gan wybod eu bod wedi'u harfogi a'u cefnogi wrth iddynt rannu eu stori a neges Iesu gydag eraill.

Mae CVM Cymru yn gweithio'n agos gydag eglwysi lleol, gan gydnabod eu bod yn ganolfannau hanfodol ar gyfer y gymuned a bod yn ddisgyblion. Trwy bartneru ag eglwysi, mae'r genhadaeth yn gwreiddio mewn cyd-destunau lleol, gan ganiatáu iddi ffynnu mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac yn berthnasol. Caiff arweinwyr eglwysi eu hannog a byddant yn

derbyn adnoddau pwrpasol. Cânt eu cefnogi wrth iddynt geisio ymgysylltu â dynion yn eu cynulleidfaoedd a thu hwnt, gan greu amgylchedd lle gall dynion dyfu mewn ffydd a meithrin cysylltiadau parhaol.

Ochr yn ochr â'r gwaith cyson hwn, mae CVM hefyd yn cynnal digwyddiadau estyn allan sy'n dod â dynion ynghyd o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Un digwyddiad o'r fath yw 'The Gathering', a gynhelir yn Swindon. Mae'r wyl bwerus hwn yn rhoi cyfle i ddynion ddod ynghyd, clywed yr Efengyl, addoli, a chael eu herio i fyw bywydau sydd wedi'u hymrwymo'n llwyr i Iesu. Mae'n fan lle mae bywydau'n aml yn cael eu newid, penderfyniadau'n cael eu gwneud, a dynion yn cael eu hysbrydoli i gymryd eu camau nesaf mewn ffydd.

Yn nes at adref, mae 'Stronger Cryfach' yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddynion a gynhelir yng Nghymru. Mae i'r digwyddiad hwn ymdeimlad cryf o hunaniaeth a phwrpas, gan siarad yn uniongyrchol â chalonnau dynion Cymru. Mae'n cyfuno addysgu pwerus, gwir addoliad, ac ymdeimlad o frawdoliaeth, gan greu amgylchedd lle gall dynion gyfarfod â Duw mewn ffordd wirioneddol a phersonol. Nid digwyddiadau unigol yw'r rhain, ond rhan o strategaeth ehangach i gyrraedd dynion ledled y wlad a'u gwahodd i berthynas ddyfnach ag Iesu.

Yr hyn sy'n gwneud gwaith CVM Cymru mor effeithiol yw ei bwyslais

ar berthynas a dilysrwydd. Mae'n cydnabod nad yw dynion yn aml yn ymateb i raglenni yn unig, ond i wir gysylltiad. Trwy feithrin diwylliant o fod yn agored, gonestrwydd a chefnogaeth, caiff dynion eu hannog i ofyn cwestiynau, archwilio ffydd, a chymryd camau tuag at lesu heb bwysau na'u barnu.

Mae'r gwahoddiad bob amser yn agored. Byddai CVM Cymru yn falch o ymweld ag eglwysi lleol, rhannu ei weledigaeth, a bod ochr yn ochr â'r rhai sy'n angerddol am gyrraedd dynion gyda'r Efengyl. Mae'r ymweliadau hyn yn fwy na chyflwyniadau; maent yn gyfleoedd i ysbrydoli, arfogi, ac annog eglwysi i gamu'n hyderus i'r genhadaeth. Gyda'n gilydd, gall eglwysi a CVM Cymru weld mwy o ddynion yn cael eu cyflwyno i lesu a mwy o fywydau'n cael eu trawsnewid gan Ei ras.

Wrth wraidd popeth mae ymddiriedaeth ddofn yng ngallu Duw i newid bywydau. Nid yw'r weledigaeth wedi'i hadeiladu ar gryfder dynol yn unig, ond ar y gred fod lesu'n dal i drawsnewid calonnau heddiw. Wrth i ddynion gyfarfod ag Ef, wrth iddynt ddod yn ddisgyblion, a chamu i'r gwaith a roddwyd iddynt gan Dduw o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau, mae'r effaith yn ddwys ac yn bellgyrhaeddol.

Mae'r daith yn parhau, ac mae'r genhadaeth yn un frys. Ond mae llawer o obaith. Gyda phob sgwrs, pob digwyddiad, a phob cam o ffydd, mae CVM Cymru yn parhau i symud ymlaen. Rydym yn sefyll ochr yn ochr â dynion, yn cerdded y llwybr cul gyda'n gilydd, ac yn credu mewn cenedl a fydd yn troi ei hwyneb yn ôl at lesu.

Os hoffech ragor o wybodaeth am CVM Cymru, gallwch gysylltu â'r tîm: swyddfa@cvm.cymru. Ar y cyd ag Eglwys Bresbyteriaid Cymru, mae CVM Cymru wedi ffilmio fideo byr y gallwch ei wyllo yn: <https://youtu.be/jYEnQX70sFk>



Pan fydd caledi yn golygu newyn

..gall ffermwyr trefol dyfu gobaiith.



Fridah, ffermwr trefol, gyda'i hŷyr Quillan yn Dagoretti, Kenya.

Wythnos Cymorth Cristnogol 10-16 Mai 2026

cymorth cristnogol

Dysgwch sut gall eich eglwys sefyll gyda chymdogion byd-eang sy'n adeiladu bywyd y tu hwnt i dlodi.

A wnaiff eich eglwys helpu rhywun fel Fridah i amddiffyn ei phlant rhag newyn a diffyg maeth?

Gweddi o eiriolaeth yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol

Arglwydd, rwyd ti'n ffyddlon ac yn deg. Yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.

Arglwydd, clyw ein gweddi dros ein cymdogion byd-eang yn Kenya.

Gweddiwn yn arbennig dros drigolion ardal Dagoretti.

Gweddiwn dros y rhai sy'n byw gydag ansicrwydd a'r bygythiad o newyn.

Helpa ni i glywed lleisiau ein cymdogion yn glir pan fyddan nhw'n rhannu eu profiadau.

Ysbrydola ni i weithredu, wrth i ni ymateb i dy orchymyn i garu ein gilydd.

Arglwydd, rwyd ti'n ffyddlon ac yn deg. Yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.

Arglwydd, clyw ein gweddi dros y

rhai mewn grym: llywodraethau, arweinwyr, llunwyr polisïau, a'r rheini sy'n siarad â lleisiau uchel ar y llwyfan cyhoeddus.

Boed i'r rhai sydd â phŵer a dylanwad garu trugaredd, gweithredu'n gyfiawn a rhodio'n ostyngedig.

Gweddiwn dros lywodraethau i weithredu i roi terfyn ar anghydraddoldeb economaidd.

Gweddiwn yn arbennig dros wledydd fel Kenya, sydd â baich dyled anferth.

Arglwydd, rwyd ti'n ffyddlon ac yn deg. Yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.

Arglwydd, clyw ein gweddi dros roi terfyn ar wrthdaro.

Cryfha'r rheini sy'n gweithio dros heddwch a chyfiawnder ledled y byd.

Arglwydd, rwyd ti'n ffyddlon ac yn deg. Yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.

Amen

Wythnos Weddi Genedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru – 17–23 Mai 2026

Eleni, bydd yr Wythnos Weddi'n dechrau ddydd Sul, 17 Mai. Mae hyn yn briodol iawn gan ei fod yn digwydd yn y cyfnod cyn y Pentecost, pan mae'r Eglwys yn draddodiadol yn chwilio am yr adnewyddiad ysbrydol na all dim ond yr Ysbryd a gododd Crist oddi wrth y meirw ei ddwyn.

Rwyf wedi pregethu yn aml ar adnodau nad wyf yn eu deall. Rwyf wedi darllen cymaint o esboniadau ag y gall fy silffoedd llyfrau eu dal; rwyf hefyd wedi dadansoddi'r testun yn ei iaith wreiddiol, ond mae'r geiriau'n dal i ymddangos yn ddieithr i mi rywsut. Y gwir amdani yw fod yn rhaid inni fyw'r Beibl er mwyn ei wir deall.

Yn 1 Thesalonaiad 5:17 mae'r apostol Paul yn ysgrifennu, "Gweddïwch yn ddi-baid". Nid wyf yn deall yr adnod hon yn llawn eto. Ond po hynaf ydw i a'r hiraf rwyf yn teithio gyda Christ, y mwyaf y mae ei wirionedd yn treiddio i mewn i fy mywyd.

Wrth edrych ar yr hyn a ysgrifennodd Paul yn ei gyfanrwydd, mae'n amlwg ei fod yn gweld gweddi fel rhywbeth sy'n adlewyrchu'r bywyd Cristnogol i gyd. Ac yma mae'n meddwl am weddi fel ffordd o fyw a ffordd o fod. Iddo ef, rhaid i'r ffordd hon o fyw gael ei chyfeirio tuag at eraill.

Mae gweddi'n llyf parhaus a chariadus o'r hunan, allan ohono'i hun tuag at Dduw a thuag at eraill. Mewn gweddi mae ein sylw, ein chwantau, ein huchelgais a'n bwriadau mor gydnaws â Christ fel eu bod yn gweld Duw ac eraill fel eu nod terfynol. Yn ei hanfod, perthynas yw gweddi.

I Iesu, roedd yr arfer o weddio yn gymaint rhan o'i fywyd bob dydd nes iddo ddod yn ffordd o fod. Er, fel y dywedais uchod, nad ydw i ddim yn ei ddeall yn iawn, credaf efallai mai dyma y mae Paul yn ei gynnig.

Wrth ddyfeisio cyfleoedd newydd i'r enwad ymgysylltu â gweddi, ein huchelgais yn y Tîm Gweddi yw y daw gweddi yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd ein heglwysi a'n haelodau. Y gobaith yw y bydd ein gweddiâu unigol yn cael eu hymgorffori mewn ffordd weddigar o fyw, fel y mae coeden yn dod yn rhan o goedwig fawr. Mae'r Wythnos Weddi yn rhan annatod o'r uchelgais hwn.

Yn ystod yr Wythnos Weddi, 17–23 Mai, bydd cyfle inni gwrdd â'n gilydd bob nos am 7pm i weddio.

- Nos Lun – cawn gyfle unwaith eto i ymgynnull mewn grwpiau bach mewn canolfannau gweddi dynodedig a fydd yn cael eu cysylltu â'i gilydd drwy Zoom.
- Ar y nosweithiau eraill byddwn yn gallu cyfarfod o'n cartrefi ein hunain ar-lein.
- Nos Iau – bydd y cyfarfod Zoom ar agor am bedair awr tan 11 o'r gloch yr hwyr er mwyn inni allu galw i mewn ac ymuno â'r cwrdd – am gyn hired neu cyn fyrred ag y dymunwn.

- Fel mewn blynyddoedd blaenorol bydd gennym ddyddiadur gweddi ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos – gyda chefnogaeth ein ap, Gweddi.Prayer, a bydd ar gael hefyd o wefan EBC. Mae'r ddolen Zoom ar gyfer yr holl gyfarfodydd hyn i'w gweld ar y wefan, yn yr adran Digwyddiadau Gweddi.Prayer a bydd yn cael ei hanfon gennym i bob eglwys.

Bydd y pecyn adnoddau i helpu i ddsygu plant a phobl ifanc am arwyddocâd gweddi, a fydd ar gael i'n holl eglwysi, o ddi-ddordeb a phwysigrwydd mawr i'n heglwysi sy'n cynnal gwaith plant ac ieuencid mewn unrhyw ffordd. Mae'r pecyn wedi'i baratoi gan weithwyr profiadol sydd â llawer o flynyddoedd o brofiad yn gweithio gyda phobl ifanc.

Dim ond un wythnos mewn pum deg dwy ydy hi, ond bydd i'r Wythnos Weddi arwyddocâd arhosol os byddwn ni'n cael ein symud, fel rydym yn gobeithio, ychydig yn nes at ddeall beth mae'n ei olygu i weddio'n ddi-baid.

Dyma'r ddolen ar gyfer yr holl adnoddau ar y wefan i baratoi ar gyfer yr wythnos: <https://www.ebcpcw.cymru/cy/wythnos-weddi-genedlaethol-2026/>

Owen Griffiths, Gweinidog Henaduriaeth y De-ddwyrain

Wythnos Weddi Genedlaethol Eglwys Bresbyteraidd Cymru Presbyterian Church of Wales National Prayer Week

**Cyfarfod gweddi, drwy Zoom, i'r enwad cyfan, mewn 19 canolfan.
Zoom Prayer Meeting, for the whole denomination, in 19 centres.**


**Canolfannau a Cyfarfod Gweddi:
The Prayer Meeting Centres:**

1. Tudweiliog - Capel Tudweiliog
2. Porthmadog - Capel y Porth
3. Llanfairpwll - Capel Rhos y Gad
4. Bangor - Beraa Newydd
5. Llandudno - Gloddaeth Church
6. Dinbych - Capel Mawr
7. Melin y Coed
8. Yr Wyddgrug / Mold - Capel Bethesda
9. Blaenau Ffestiniog - Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog
10. Y Bala - Capel Tegid
11. Tregaron - Capel Bwlchgwyrnt
12. Llandysul - Ffynnon
13. Llanymddyfri / Llandowry - William Williams Memorial
14. Pwllawdd - Tabernacl
15. Trefeca
16. Trefforest- Parcarn CF371RY
17. Caerdydd - Eglwys y Crwys
18. Caerdydd - Fairwater
19. Llundain - Capel Jewin

**Nos Lun / Monday
18 Mai / May
7.00 - 8.00**

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 22

Ymson Sheba

Ar awel yr anialwch clywyd sibrydion am ddyfodiad Sheba. Fi yw honno – y frenhines gyfoethog, hardd, ond ymchwilgar. Clywais innau ar yr awel am frenin, a'i ddoethineb a ddeuai o Dduw. Pe baech yn darllen fy hanes i, mae sôn am fy siwrnai, oes, ond nid am y pwysau i gael gwybod am y gwir. Cefais fy nghymell gan ryw dân i deithio dros y twyni maith.

Roedd pwysau trwm ar fy nghamelod hefyd. Carient y peraroglau a'r perlysiâu, yr aur a'r gemau gwerthfawr. Roedd y cyfan yn disgleirio fel sêr wrth imi deithio ac yn f'amgylchynu â goleuni. Allwn i ddim mynd yn waglaw, ond nid y pethau hyn oedd yn bwysig mewn gwirionedd. Arwydd oeddynt o'mharch tuag at y brenin a fyddai, gobeithio, yn rhoi imi atebion. Ar bob cam o'r ffordd, cydgerddai fy nghwestiynau a'm hamheuron â mi, fel haenau o niwl yn fy meddwl. Wnâi hynny mo'r tro, gan mai person ydwyf sy'n dyheu am ddealltwriaeth.

O'm blaen roedd dinas Jerwsalem yn ei holl ysblander. Gwyddwn fod labyrinth coridorau'r palas yn llawn o bobl ddysgedig. Ac yn y canol yr oedd Solomon. A dyna lle y dymunwn innau fod – yn y canol, yn canolbwyntio ar dderbyn a deall.

O'r diwedd, cyrhaeddais. O'm blaen, am y tro cyntaf erioed, safai Solomon. Nid oedd iotyn o haerllugrwydd yn ei wedd. Hoffais hynny'n fawr. Holais; gwrandawodd yntau'n bwylllog. Yn ei atebion canfyddais y claerineb yr oeddwn yn dyheu amdano.

Doedd dim un cwestiwn yn ormod iddo; dim un pos na rhigwm na allai ei ddatrys. Ces fy synnu gan ei allu. Synnais fwyfwy ar y doethineb a lifai ohono, fel petai'n llestr pridd yn tywallt y gwin melysaf drosof. Gwelais y deml yr oedd ei weithwyr wedi'i hadeiladu, a'r sancteiddrwydd mwyaf grymus wedi'i osod yn ei chonglfeini. Roedd

rhywbeth arbennig yma ac ro'n i eisïau bod yn rhan ohono rywsut. Gwnaeth imi deimlo mor wylaidd.

Collwn f'anadl wrth iddo siarad, nid oherwydd imi gael fy nychryn, ond am imi gael fy ngoleuo. Roedd ei ddoethineb yn fwy o lawer nag yr oeddwn wedi'i ddisgwyl. Cyfaddefais wrtho mai hanner y gwir yr oeddwn wedi'i dderbyn hyd yma. Gwelais sut yr oedd Solomon wedi amgylchynu ei hun, nid â chyfoeth ond â ffafr, ffafr Duw. Roedd dwyfoldeb a'r Dwyfol yn pelydru o'i feddwl fel y goron brydferthaf a welais erioed!

Rhoddais iddo'r cyfan yr oeddwn wedi'i gludo gyda mi, nid fel taliad, ond yn hytrach fel arwydd o'm parch tuag ato. Rhoddodd ef i mi lawer iawn mwy na hynny. Roedd ei roi hael a rhydd yn mynd yn bellach nag unrhyw draddodiad nac arferiad i ymwelydd fel fi. Fe dderbyniais drysor a thrysorau di-ri yn ei eiriau melyn.

Dychwelais i 'ngwlad fy hun wedi f'adnewyddu. Cefais weld ei deyrnas fel ffynnon o ddŵr bywiol yn yr anialwch. Roedd y dŵr bywiol wedi fy nisychedu. Deallais sut y gall doethineb, ac nid concwest, roi trefn ar bethau'r byd. Daeth y ddealltwriaeth dawel, a'r ddirnadaeth ym mên f'esgyrn, mai derbyn grym y mae rhywun, ac nid ei ennill.

Bydd pobl ar hyd yr oesau'n cofio am fy nhrysorau bydol, fy harddwch, fy ngosgeiddigrwydd. Fe gofïaf innau am y gwir a roddwyd imi. Es at Solomon am atebion; fe'u cefais, do, ond yn fwy na hynny, fe dderbyniais ogwydd meddwl â'm deffrôdd o drwmwsg anwybodaeth.

Holi

• Mewn byd o wybodaeth ddigidol gyflym, sut allwn ni fod yn fwrriadol ymchwilgar yn hytrach na setlo am atebion arwynebol? Beth sy'n cymhell ein teithio tuag at ddirnadaeth ddyfnach?

• Ydych chi erioed wedi darganfod rhywun neu rhywbeth – boed am ffydd, neu bobl, neu Dduw – oedd yn fwy na'ch disgwyliadau? Sut wnaethoch chi ymateb: ag amheuaeth, gostyngeddwrwydd, neu wrthsafiad?

• Sylweddolodd Sheba fod Solomon yn byw doethineb, nid yn unig yn ei eiriau ond yn ei fywyd gweithredol. Yn y cyd-destun modern, pa dystiolaeth weladwy o ddoethineb neu ffydd ddylai eraill allu ei gweld yn ein bywydau beunyddiol?

• Cafodd Sheba ei thrawsnewid gan yr hyn a brofodd. Ar ôl profiadau o fewnwelediad ysbrydol, sut allwn ni gario'r newidiadau yn ein trefn ddyddiol, ein perthnasoedd, a'n penderfyniadau?

Gweddi

Cofiwn am werth doethineb. Diolchwn am y bobl sydd wedi ein goleuo, ac sy'n parhau i wneud hynny. Deisyfwn y ddealltwriaeth sy'n rhoi i ni adnabyddiaeth ohonot Ti. Bydd yn gymorth inni fod yn ostyngedig ac yn agored i rym yr Ysbryd. Helpa ni i fod yn hael – gyda'n hamser, yn ein geiriau, a'n hadnoddau. Pan brofw'n dy bresenoldeb, symud ni o'n difaterwch, a thrawsnewidia ni. Amen.

Sian Meinir



Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 17 Mai 2026

Radio Cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 17 Mai, am 7:30yb a 4:30yp
Hoff emynau rhai o aelodau Gofalaeth Glannau Ogwr

Oedfa Radio Cymru

Sul, 17 Mai am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Emlyn Dole, Pontyberem

S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 17 Mai, am 7:30yh
Môn, Mam Cymru

Bydd Lowri Morgan yn ymweld â dalgylch Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Môn.

GŴYL GENHADOL MERCHED Y DE

Mai 21ain 2026
Capel Blaenannerch



SA43 2BP Capel Blaenannerch

1.30 o'r gloch
Siaradwyr:
Dr Eryn White a'r
Parch Geraint Morse



Darlith flynyddol Edwin Stephen Griffiths

'Ai Gwas neu Ffrind y byddaf yn dy alw?
Bedyddwyr, Anghydfurfiaeth a DA'

Cynhelir darlith Edwin Stephen Griffiths eleni ar 21 Mai, 2:00–4:30 o'r gloch, yng Ngoleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Bydd yn cynnwys darlith, trafodaeth a seminar gyda'r Barch. Ddr Sally Nelson ar sut y gallai Deallusrwydd Artiffisial (AI neu DA) effeithio ar ein deinamig cynulleidfaol a'r ffordd yr ydym yn dehongli ac yn byw ein hegwyddorion Bedyddiedig.

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru 2026

Estynnwn wahoddiad i chi ymuno â chyfarfodydd blynyddol yr Undeb ar 18–21 Mehefin eleni, yn y Tabernacl, Caerdydd.

Mae pedwar diwrnod o gyfarfodydd, gweithgareddau a chyfleoedd i gymdeithasu a mwynhau'r ddinas wedi eu trefnu eleni, a byddem wrth ein bodd petaech yn gallu ymuno â ni am ran o'r amser, neu'r cyfan.

Byddwn yn dilyn y thema 'Rhodiwch mewn Cariad', yn seiliedig ar Effesiaid 5:2, o dan arweiniad ein llywydd newydd, y Barch. Ddr Rosa Hunt.

Mae rhaglen lawn, a ffurflen i archebu lle ar gael ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru: www.ubc.cymru.

Noder bod croeso i unrhyw un ymuno â ni ar gyfer unrhyw un o'r oedfaon yn ystod yr wythnos heb roi gwybod i ni ymlaen llaw. Ond os hoffech ymuno â ni ar gyfer unrhyw ran arall o'r rhaglen, bydd raid i chi gofrestru drwy lenwi'r ffurflen sydd ar wefan www.ubc.cymru. Plis, dynodwch yn y ffurflen os ydych yn dod fel cynrychiolydd eglwys / cymanfa neu fel ymwelydd. Croeso mawr i bawb.



NEWYDD: Cynllun Disgyblion Cenhadol Undeb Bedyddwyr Cymru

Rydym yn falch iawn o rannu bod yr Undeb yn lansio cynllun peilot hyfforddiant newydd, sef 'Cynllun Disgyblion Cenhadol'.

Daw'r cynllun hwn ychydig flynyddoedd ar ôl ein rhaglen ddiwethaf 'Tîm i Gymru', wedi i ni sylwi bod llai o interniaethau'n gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod diddordeb wedi dechrau ymddangos o'r newydd, cafwyd newidiadau yn y gyfraith ynghylch cyfreithlondeb blynyddoedd 'gap' traddodiadol. Mae eleni yn gyfle amserol i dreialu blwyddyn 'hyfforddiant' newydd a chyffrous; bydd un cynllun wedi'i leoli yn Eglwys y Bedyddwyr, Caersalem, Caernarfon (iaith Gymraeg), a'r ail yng Nghymanfa Bedyddwyr Gwent (iaith Saesneg). Mi fydd y ddau gynllun yn dechrau ym mis Medi 2026.



Os ydych chi'n nabod pobl ifanc a chanddynt galon dros genhadaeth neu ddiddordeb yn y weinidogaeth – cyfeiriwch nhw aton ni! Croesewir ceisiadau tan 19 Mehefin. Gallwch ddarganfod mwy ar ein gwefan: www.ubc.cymru

Ydy Duw yn hoffi celfyddyd?

Y llynedd cynhaliwyd Arddangosfa Gelf Gymunedol, ar y cyd â Lois Adams, artist cymunedol o Gaerdydd, gan Ofalaeth Pwllheli a Chapel Tudweiliog.

Gwahoddwyd artistiaid o bob cefndir a gallu i gyflwyno gwaith ar y thema 'Yn y dechreuad'. Ymwelodd Lois â phedair ysgol leol, gan arwain gweithdai celf, ac roedd ffrwyth eu llafur yn rhan amlwg o'r arddangosfa. Daeth tua 500 o bobl a phlant drwy ddrws Capel y Drindod yn ystod yr wythnos. Dyma ffordd ragorol i greu perthynas â'r sawl sy'n hoffi'r celfyddydau.

Gellir gwyllo ffilmiau o weithgareddau'r wythnos drwy glicio ar y ddolen hon:

www.youtube.com/playlist?list=PLH4JpblhvRT5paFhpx7QOoFn5BzJ4xGQu

Fe'm heriwyd gan yr arddangosfa i feddwl am berthynas Cristnogaeth a chelfyddyd. Tybed oedd gan y Beibl rywbeth i'w ddweud am y mater? Mae Ecsodus 31:1-5 yn nodi: 'Dyweddodd yr ARGLWYDD wrth Moses, "Edrych, yr wyf wedi dewis Besalel fab Uri, fab Hur, o lwyth Jwda, a'i lenwi ag ysbryd Duw, â doethineb a deall, â gwybodaeth a phob rhyw ddawn, er mwyn iddo ddyfeisio patrymau cywrair i'w gweithio mewn aur, arian a phres, a thorri meini i'w gosod, a cherfio pren, a gwneud pob cywreinaeth.'

Rhoddodd Duw'r ddawn i Besalel i greu celfyddyd yn y Tabernacl, er mwyn dwyn clod iddo'i hun. Ar sail hyn, credaf fod Duw yn hoffi celfyddyd.

Hyd at y Diwygiad Protestannaidd, roedd celfyddyd yn y byd crefyddol wedi datblygu ac yn canolbwyntio ar ddelweddau crefyddol, cerfluniau, paentiadau, allorluniau, croesau, eiconau, creiriau a ffenestri gwydr lliw. Yn dilyn hynny, symudodd artistiaid Protestannaidd i gyfeiriad gwahanol, oddi wrth bynciau crefyddol tuag at bynciau hanesyddol, peintio tirweddau, portreadau a bywyd llongydd, a'u gwaith yn arddangos themâu ysbrydol. Felly, roedd Protestaniaeth a Phabyddiaeth yn gweld bod perthynas Cristnogaeth a chelfyddyd yn bwysig.

Mae dylanwad Cristnogaeth ar y celfyddydau yn ddwfn ac yn amlochrog, yn cwmpasu ystod eang o fynegiadau sy'n adlewyrchu credoau a gwerthoedd craidd y ffydd. Ym myd llenyddiaeth a cherddoriaeth, y celfyddydau gweledol a'r theatr, mae'r berthynas rhwng Cristnogaeth a'r celfyddydau yn parhau i ddatblygu. Mae'n gwahodd artistiaid a chynulleidfaoedd i archwilio – drwy fynegiant creadigol – ystyron dyfnach bywyd a ffydd.

Mewn ysgrif ar y pwnc 'Diwinyddiaeth a'r Celfyddydau a'u defnydd yn yr Eglwys', dywed y Parchg Owen Griffiths:

Mae Effesiaid 2 yn portreadu'r eglwys fel y ddynoliaeth newydd ar ddiwedd amser. O ystyried hynny a'r ffaith fod natur gelfyddydol yn rhan hanfodol o fod yn ddynol,



onid oes raid i'r eglwys fod yn eglwys gelfyddydol? Dyma un o'r ffyrdd y gall yr eglwys wir fod yn ymgorfforiad o'r bywyd toreithiog y daeth yr Iesu i'w roi (Ioan 10:10).


Boed a fo am hynny, credaf y daw'r drafodaeth uchod â ni at gasgliad na all celfyddyd gael ei nacáu na'i mygu, hyd yn oed gan y rhai sy'n ceisio gwneud hynny, ac na all ychwaith gael ei chadw allan o fywyd yr eglwys.

Pam? Gofynnaf. Mae natur gelfyddydol yn rhan hanfodol o fod yn ddynol ac mae bodoli mewn cymuned yn golygu cyfathrebu drwy gelfyddyd. Y mae'n wir bod cymuned yr eglwys yn wahanol, ond gwelir y gwahaniaeth hwn yn y nodweddion o Grist a fynegir yn ei chelfyddyd ac yn y stori gyfoethog am yr iachawdwriaeth y mae ei chelfyddyd yn ei harchwilio. Y mae'r eglwys yn gelfyddydol ac y mae bod yn eglwys yn golygu bod yn eglwys gelfyddydol.

Wrth feddwl am Gristnogaeth a'r celfyddydau, daw pedwar cwestiwn i'r meddwl:

- Tybed a yw'r celfyddydau wedi bod ar goll yn ein Cristnogaeth oherwydd camddechongli'r adnod sydd yn Rhufeiniaid 10:17: "Felly, o'r hyn a glywir y daw ffydd, a daw'r clywed trwy air Crist."
- Tybed a yw'r celfyddydau yn gyfrwng i'n cynorthwyo i ddeall ystyr bywyd a ffydd?
- Tybed sut y gall eglwysi lleol ddangos eu gwerthfawrogiad o'r sawl sy'n ymddiddori yn y celfyddydau?
- Tybed sut y gall eglwysi'r enwad, yn eu hymwneud lleol, dystiolaethu trwy gyfrwng y celfyddydau?

Dyma fydd rhai o'r cwestiynau a drafodir gan banel a godwyd gan yr Adran Gyhoeddi i wyntyllu'r mater.



Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion: **Aled Davies:** aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | **Facebook:** [CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | **X:** [@CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** ac **Undeb Bedyddwyr Cymru**.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol www.panel.cymru ar **01745 817584** neu **07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight** ar **0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.

